# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 29.04.14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Louise Hughes, Sian Gwenllian, Brian Jones, Eric M. Jones, Liz Saville Roberts, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, R.H. Wyn Williams,

**Hefyd yn Bresennol:** Alwyn Evans-Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol), Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

1. **CROESO**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

2. **YMDDIHEURIADAU**
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Brian Jones

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
   Dim i'w nodi

4. **MATERION BRYS**
   Dim i'w nodi

5. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

6. **CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER SWYDD PRIF WEITHREDWR**

   **Cyfwelwyd dau ymgeisydd a oedd ar y rhestr fer ar gyfer y swydd.**

   Gwahoddwyd Mr Arwyn Reynolds, Ymgynghorydd annibynnol o gwmni PCS Associates i gyflwyno sylwadau o'r Ganolfan Asesu a gynhaliwyd 15.04.14.

Derbyniwyd crynodeb manwl o berfformiadau'r ddau ymgeisydd oedd wedi cyrraedd y safon.

Diolchwyd i Mr Reynolds am ei sylwadau.

**PENDERFYNIAD**

**ARGYMHELL I'R CYNGOR LLAWN BENODI MR DILWYN WILLIAMS I'R SWYDD PRIF WEITHREDWR**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 5:00pm